

2015 Rhif 1341 (Cy. 128)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A40
(Cylchfan Dixton, Trefynwy i'r Ffin
rhwng Cymru a Lloegr, Sir Fynwy)
(Gwaharddiadau a Chyfyngiad
Traffig Dros Dro) 2015**

Gwnaed 21 Mai 2015

Yn dod i rym 28 Mai 2015

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon (yr A40) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Mai 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Dixton, Trefynwy i'r Ffin rhwng Cymru a Lloegr, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2015.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 28 Mai 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw’r darnau o’r gefnffordd rhwng Cylchfan Dixton, Trefynwy a’r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chfyngiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd drwy’r bylchau yn y llain ganol a bennir yn Atodlen 3.

Cymhwyso

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a’r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

21 Mai 2015

R Morgan

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 36 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Dixton, Trefynwy hyd at bwynt 296 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt trosbont Chapel Farm, Sir Fynwy ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

Y darn cyfan o'r gilfan gyfagos i gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd a leolir 318 o fetrau i'r gogledd o Leasbrook Lane, Trefynwy.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Leasbrook Lane, Trefynwy hyd at bwynt 296 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt trosbont Chapel Farm, Sir Fynwy ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

ATODLEN 3

Cau Bylchau'r Llain Ganol

Y bwllch yn y llain ganol a leolir gyferbyn â chyffordd y gefnffordd â Leasbrook Lane, Trefynwy.

Y bwllch yn y llain ganol a leolir 137 o fetrau i'r gogledd o Leasbrook Lane, Trefynwy.

Y bwllch yn y llain ganol a leolir 382 o fetrau i'r gogledd o Leasbrook Lane, Trefynwy.

Y bwllch yn y llain ganol a leolir 1.7 cilometr i'r gogledd o Gylchfan Dixton, Trefynwy.